Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Esceifiog

**Y Gaerwen**
**Ynys Môn**
**LL60 6DD**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Esceifiog

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Esceifiog |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 156 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 122 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn [Cynradd] yw [23.0]%) | 13.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn [Cynradd] yw [16.1]%) | 34.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 65.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/06/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/01/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Esceifiog yn gymuned ddysgu hapus a chyfeillgar sy'n annog disgyblion i fod yn falch o'u hysgol a'r gymuned. Mae gweledigaeth gadarn arweinwyr yn treiddio i holl weithgarwch yr ysgol, gyda phwyslais clir ar 'dyfu, dysgu a llwyddo gyda'n gilydd'. Mae'r ethos clós a chefnogol hwn yn sicrhau bod lles disgyblion yn cael blaenoriaeth amlwg yn yr ysgol gynhwysol hon.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n gynhyrchiol i ddarparu ystod dda o brofiadau diddorol i'r disgyblion. Mae'r ardaloedd dysgu, gan gynnwys yr ardaloedd y tu allan, yn ysgogol a diddorol ac mae bob rhan o'r adeilad yn cael ei defnyddio'n hynod greadigol. Mae'r ardaloedd hyn yn cefnogi lles disgyblion yn fuddiol gan sicrhau eu bod yn barod i ddysgu. Mae'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn datblygu'n  ddysgwyr annibynnol. Maent yn gwrtais ac yn ofalgar iawn o'i gilydd. O ganlyniad, mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol.

Yn gyffredinol, mae medrau addysgu'r  athrawon yn gadarn. Maent yn holi disgyblion yn fedrus ac yn eu cynnwys yn gyson fel rhan annatod o'u dysgu er mwyn eu cefnogi i wella eu gwaith. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w cam nesaf mewn dysgu. Fodd bynnag, ble nad yw'r ddarpariaeth mor gadarn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n ddigon heriol nac ychwaith yn sicrhau bod medrau disgyblion yn adeiladu'n ddigon systematig dros gyfnod.

Mae gan y pennaeth adnabyddiaeth gadarn o'r ysgol ac mae'n annog staff i gydweithio'n agos ag ysgolion lleol ac i fod yn fyfyriol yn eu gweithredoedd er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Er hynny, nid yw'r systemau gwella yn canolbwyntio'n  ddigon manwl ar werthuso'r ddarpariaeth i wella safonau a chynnydd disgyblion yr ysgol yn benodol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr addysgu yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A2 Gwella'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau'n adeiladol

A3 Sicrhau bod y systemau gwella yn canolbwyntio'n  fwy manwl ar werthuso a gwella safonau a chynnydd disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w cam dysgu a'u mannau cychwyn. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof, yn caffael gwybodaeth, yn dwysáu dealltwriaeth ac yn datblygu medrau newydd yn llwyddiannus. Er hyn, mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau, nid yw disgyblion yn adeiladu eu medrau a'u dysgu blaenorol yn ddigon llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau staff ac yn parchu cyfraniadau eu cyfoedion yn gyson. O oedran cynnar, mae medrau cyfathrebu Cymraeg llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n addas. Yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1, maent yn datblygu geirfa a phatrymau brawddeg yn effeithiol wrth gyfathrebu ag oedolion a chyfoedion. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn siarad yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau. Er hyn, mae lleiafrif y disgyblion yn rhy barod i droi i'r Saesneg mewn gwersi ac mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda o oedran cynnar. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau unigol a geiriau syml sy'n gyfarwydd iddynt yn hyderus. Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau darllen yn fedrus wrth ymchwilio i feysydd penodol. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer yn darllen yn glir a gyda mynegiant da yn y ddwy iaith.

Gwna'r disgyblion ieuengaf gynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu, ac erbyn Blwyddyn 1 a 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu yn  Gymraeg mewn gwahanol ffurfiau yn llwyddiannus. Wrth ddechrau eu cyfnod nesaf yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol, ond at ei gilydd, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n gyson er mwyn datblygu medrau ysgrifennu cadarn. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth dda o ffurfiau. Maent yn defnyddio ansoddeiriau synhwyrol, yn paragraffu'n  drefnus ac yn defnyddio geirfa ddiddorol er mwyn dwyn perswâd wrth ysgrifennu eu maniffesto i fod yn aelod o'r pwyllgorau ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn ystyried anghenion eu cynulleidfa yn fedrus, er enghraifft wrth ddefnyddio trefnolion yn gywir wrth ysgrifennu rysáit .Fodd bynnag, ar y cyfan, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod rhifau, ac yn defnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft wrth greu graff yn dangos hoff anifeiliaid y fferm. Ym Mlwyddyn 1 a 2, mae disgyblion yn cyfrifo costau llysiau a ffrwythau yn gywir yn eu siop ac yn datrys problemau adio yn hyderus. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae cynnydd disgyblion yn eu medrau rhifedd a'u dealltwriaeth fathemategol yn amrywio. Er bod cynnydd medrau disgyblion yn briodol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, nid yw eu dealltwriaeth fathemategol na'u medrau rhifedd yn adeiladu systematig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu.

Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau digidol yn addas. Maent yn defnyddio rhaglenni i gydweithio a rhannu syniadau fel grŵp. Maent yn arbed ac adalw gwaith mewn ffeiliau personol yn gwbl annibynnol, ac yn defnyddio amrywiaeth o raglenni i gynhyrchu ac addasu gwaith gydag annibyniaeth gynyddol. Mae bron bob disgybl yn siarad yn ddeallus am e-ddiogelwch ac yn deall ei bwysigrwydd wrth ddysgu yn yr ysgol a'r cartref.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau creadigol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn efelychu gwaith artistiaid yn fedrus ac yn amrywio'r tôn a'r lliw yn ofalus er mwyn creu effaith fel y môr, yr awyr a'r tirwedd. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cerddorol yn werthfawr wrth gydweithio i greu darn byr o gerddoriaeth yn seiliedig ar eu stori dosbarth.

Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n hybu eu hiechyd a'u lles yn effeithiol, er enghraifft wrth chwarae gemau tîm a chymryd rhan mewn sesiynau dawns a gymnasteg.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae disgyblion Ysgol Gynradd Esceifiog yn falch o'u cymuned hapus, ofalgar a chartrefol ac maent yn dangos agweddau cyfeillgar at ei gilydd. Maent yn hapus ac yn dangos balchder wrth siarad am yr athrawon a'u hysgol. Maent yn gwrtais a meddylgar ac yn dangos parch a gofal tuag at ymwelwyr a'u cyfoedion. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel, yn rhydd rhag cam-drin corfforol, emosiynol a geiriol, ac yn cael eu parchu a'u trin yn deg yn yr ysgol.

Nodwedd gref o fywyd yr ysgol yw'r ffordd mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn gadarnhaol ac aeddfed at eraill. Mae bron bob disgybl yn ymateb yn effeithiol i weledigaeth a gwerthoedd yr ysgol o 'dyfu, dysgu a llwyddo gyda'n gilydd'. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn gadarn wrth iddynt weithio yn y dosbarth ac yn ystod amseroedd chwarae.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn datblygu eu lles emosiynol gan eu cefnogi i fod yn barod i ddysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau addas ac ardaloedd perthnasol yn effeithiol i'w cefnogi i deimlo'n ddiogel a'u cynorthwyo i ganolbwyntio ar eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhyngweithio ag oedolion yn dda. Maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy'n barod i ddysgu gan ddangos hyder a gwydnwch, ac i ddyfalbarhau â'u gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'r dull 'dyffryn dysgu' sy'n eu hannog i ddyfalbarhau'n ddygn wrth wynebu her yn eu gwaith.

Mae medrau dysgu annibynnol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ardaloedd dysgu yn y dosbarth a'r ardaloedd dysgu tu allan yn hynod effeithiol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Yn ogystal, mae'r disgyblion hŷn yn gweithio'n gwbl annibynnol fel rhan o drefniadau'r dosbarth ac maent yn defnyddio dulliau goresgyn rhwystrau yn effeithiol cyn gofyn am gymorth gan staff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ymgymryd ag ystod o weithgareddau yn ystod gwersi, amseroedd egwyl a chinio. Mae bron bob disgybl yn gwneud dewisiadau iach wrth yfed dŵr a bwyta ffrwythau yn ystod amseroedd byrbryd.

Trwy waith y cynghorau, mae bron bob disgybl yn teimlo bod oedolion yn yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, mae'r cyngor iechyd a lles wedi datblygu cynllun 'Byddwch Garedig' er mwyn cefnogi disgyblion i ddatrys problemau mewn ffordd gadarnhaol mewn gweithgareddau chwarae yn ystod cyfnodau egwyl. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol.

Mae agweddau disgyblion at ddysgu yn gadarn. Maent yn awyddus i rannu syniadau a chymryd rhan lawn yn eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio adborth yn effeithiol i symud eu dysgu ymlaen. Er enghraifft, maent yn defnyddio dulliau penodol i ymateb i waith cyfoedion ac i ddarparu sylwadau ar sut i wella eu gwaith. Mae'r prosesau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynnydd ym medrau llawer o ddisgyblion.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ardaloedd dysgu, gan gynnwys yr ardaloedd y tu allan, yn ysgogol a diddorol lle mae pob twll a chornel yn cael ei ddefnyddio'n greadigol i gefnogi'r dysgu neu warchod ac annog lles disgyblion. Mae'r staff ar draws yr ysgol yn creu mannau deniadol y tu mewn i'r adeilad i ysgogi'r disgyblion, fel ardal yr hafan heddwch a'r ardaloedd dysgu o fewn y dosbarthiadau. Mae'r rhain yn cefnogi profiadau dysgu'r disgyblion a'r cwricwlwm ehangach yn werthfawr.

Mae gan yr athrawon a'r cymorthyddion berthynas weithio ofalgar a chynhyrchiol gyda disgyblion, sy'n creu amgylchedd dysgu ble mae lles a datblygiad y disgyblion yn cael sylw bwriadus. Nodwedd gref o'r addysgu yw sut mae'r staff yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu ymysg disgyblion, gan greu ethos ble maent yn teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau, i fynegi barn a pheidio â bod ofn gwneud camgymeriadau.

Mae rhinweddau cryf yr addysgu yn cynnwys sut mae'r athrawon a'r staff ar draws yr ysgol yn holi disgyblion yn feistrolgar gan ofyn cwestiynau sy'n hybu disgyblion i ymestyn eu hatebion a datblygu eu medrau meddwl. Maent yn cynorthwyo disgyblion i ddeall amcanion eu gwersi ac yn sicrhau bod disgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau. Maent yn annog ymddygiad da gan ddisgyblion ac yn eu tywys yn ofalgar i gydweithio'n barchus ag eraill.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n gynhyrchiol i ddatblygu cwricwlwm diddorol, ac ar y cyfan, yn cynllunio ystod a dyfnder o brofiadau difyr yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn, ac maent yn weithgar wrth arbrofi a chynllunio gweithgareddau dysgu o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Mae llawer o'u syniadau yn dechrau ymwreiddio yn eu dulliau addysgu a dysgu. Ac, ar y cyfan, mae athrawon yn datblygu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr mentrus a chreadigol. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu eu syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu a dylanwadu ar y mathau o weithgareddau o fewn themâu diddorol. Mae llawer o'r profiadau dysgu yn deillio o gyd-destun yr ysgol a'r ardal leol, er enghraifft wrth i'r ddisgyblion ieuengaf astudio bywyd ar y fferm ac o ble y daw eu bwyd. Mae'r

disgyblion hynaf yn dysgu am arlunwyr lleol a nodweddion peirianneg yr ardal gyfagos, er enghraifft wrth ystyried rhinweddau hanesyddol Pont Menai.

Yn gyffredinol, mae'r addysgu, y cwricwlwm a chynllunio'r athrawon yn sicrhau arlwy berthnasol o brofiadau dysgu i'r disgyblion. Mae medrau disgyblion yn datblygu'n gadarn ym mwyafrif y dosbarthiadau ble gwnânt gynnydd cyson, gyda disgyblion mewn ychydig o ddosbarthiadau yn gwneud cynnydd cadarn. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn datblygu eu medrau llythrennedd yn effeithiol wrth ysgrifennu brawddegau disgrifiadol am ddeunyddiau dynol a naturiol. Fodd bynnag, ble nad yw'r ddarpariaeth mor gadarn, nid yw'r gweithgareddau dysgu yn darparu digon o her i'r disgyblion gyflawni hyd orau eu gallu. At ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn adeiladol dros gyfnod. Yn ogystal, mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau, mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau yn ddigon ymestynnol.

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae'r athrawon a'r staff yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion, boed ar lafar yn ystod y gwersi, yn ysgrifenedig neu drwy ddulliau ar eu gwaith yn electronig. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol hefyd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwybod beth  sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith,a sut.

Mae athrawon yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd eu plant, gan gynnwys cyfleoedd i rieni weld y mathau o weithgareddau maent wedi bod yn eu cyflawni yn yr ysgol drwy ddarparu clipiau a ffotograffau electronig.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol bron bob disgybl. Mae'r staff yn meithrin perthynas gadarn â'r disgyblion sy'n hyrwyddo agweddau buddiol at eu lles. Er enghraifft, mae gan aelodau staff arbenigedd mewn datblygu lles emosiynol disgyblion, ac o ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth hynod effeithiol i'r disgyblion sydd angen cefnogaeth benodol. Mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo a chefnogi ymddygiad ardderchog disgyblion yn hynod lwyddiannus.

Mae'r staff yn helpu bron bob disgybl i ddeall materion yn ymwneud â gwerthoedd, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn fwriadus. Mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd o fywyd a gwaith y disgyblion yn effeithiol, ac mae diwylliant cynhwysol amlwg o fewn yr ysgol, gyda phwyslais cryf ar barch.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth hynod effeithiol i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O ganlyniad i gynllunio'r ddarpariaeth yn fedrus, mae disgyblion yn derbyn cefnogaeth sy'n diwallu eu anghenion yn fuddiol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni a gofalwyr ynglŷn â threfniadau ADY, gyda disgyblion yn rhan annatod o'r broses. Mae'r ysgol yn ystyried barn a theimladau'r plentyn, y rhieni a gofalwyr yn llawn fel rhan o'r trefniadau gwerthfawr.

Mae gan staff drefniadau bwriadus ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ADY sy'n ymwneud â'u targedau yn eu cynlluniau datblygu unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn. O ganlyniad, mae bron bob disgybl sydd angen cefnogaeth bellach gyda'u dysgu yn gwneud cynnydd priodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio

gwybodaeth am gynnydd unigol, grwpiau na charfanau o ddisgyblion yn ddigon effeithiol i fesur effaith ar ddysgu ac adnabod camau cefnogi pellach.

Mae’r staff yn defnyddio partneriaethau ag ysgolion ac asiantaethau eraill yn effeithiol i gynnig cymorth gwerthfawr i ddisgyblion. Er enghraifft, wrth gydweithio ag asiantaethau eraill, mae staff yn cyfathrebu’n glir ac yn amserol er mwyn sicrhau cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion. Mae staff yn cydweithio ag ysgolion lleol i ddatblygu a chysoni’r trefniadau er mwyn darparu cefnogaeth gynhaliol i bob disgybl, yn enwedig ar gyfer disgyblion sydd ag ADY.

Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol disgyblion. Mae awyrgylch y gwasanaethau yn gynhwysol, er enghraifft wrth i ddisgyblion ddefnyddio iaith arwyddo tra’n canu. Yn ogystal, mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol, er enghraifft drwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd priodol i ddisgyblion archwilio  syniadau newydd. Mae disgyblion yn ymchwilio i Islam, gan gymharu â chrefyddau eraill wrth astudio Qatar a chystadleuaeth Cwpan y Byd, er enghraifft.

Mae’r ddarpariaeth yn cynorthwyo pob disgybl i gymryd rhan mewn penderfyniadau ysgol gyfan yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf yn mynegi diddordebau ar draws y cwricwlwm yn gadarn er mwyn cynllunio ar gyfer themâu, ac yn holi cwestiynau ystyrlon i ddatblygu’r dysgu.

Mae’r ysgol yn annog y rhan fwyaf o ddisgyblion i ddefnyddio eu dychymyg ac i ymgysylltu â’r celfyddydau creadigol drwy eu hastudiaethau, gweithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol.  Er enghraifft, mae staff yn darparu gweithgareddau cerddoriaeth a chelf buddiol i ddisgyblion. Yn ogystal, mae’r ysgol yn darparu amrywiaeth o ymweliadau addysgol diddorol, fel ymweliad i’r fferm wrth astudio ‘o ble daw ein bwyd’.

Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn effeithiol ac nid yw’r trefniadau’n peri pryder. Mae trefn i adrodd pryderon diogelu am ddisgyblion yn gadarn ac mae'r staff yn gwneud atgyfeiriadau amserol i asiantaethau allanol, pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth wedi creu a sefydlu gweledigaeth glir i bob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol. Mae’r weledigaeth hon yn treiddio’n gadarn drwy’r ysgol ac mae’r holl bartneriaid yn anelu at, a gweithredu ar, yr egwyddorion cytûn yn effeithiol.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y disgyblion a’r staff. Mae arweinwyr wedi datblygu tîm effeithiol o staff sy’n ymroi’n  llwyr i werthoedd yr ysgol ac i hybu lles y disgyblion a’r staff. Maent yn gwbl glir am eu rolau a’u cyfrifoldebau o fewn cymuned yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau cadarn sy’n canolbwyntio ar fodloni anghenion disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn barod ac yn mwynhau’r dysgu. Yn ogystal, mae gan arweinwyr berthynas agos â theuluoedd yr ysgol, a dealltwriaeth gadarn o’u hanghenion. Maent yn sicrhau nad yw tlodi’n  effeithio ar gyrhaeddiad addysgol drwy gynnig amrywiaeth

o weithgareddau lleol i gefnogi'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae arweinwyr yn meithrin perthnasoedd cynhyrchiol i hyrwyddo lles ac ymddygiad disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn falch o'r ysgol ac yn ymroi'n llawn i'w datblygiad. Maent yn cymryd rhan briodol ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol sydd yn eu galluogi i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae ganddynt ddealltwriaeth o flaenoriaethau cenedlaethol, ac maent yn gweithredu eu cyfrifoldebau bod disgyblion yn dysgu am fwyta ac yfed yn iach yn briodol. Ar y cyd â'r pennaeth, mae'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus, ac yn adolygu gwariant yn fanwl i sicrhau'r defnydd gorau ohono. Maent yn cysylltu'r gwariant â blaenoriaethau'r cynllun gwella yn briodol ac yn gwneud defnydd addas o'r cyllid a grantiau i gyfoethogi'r ddarpariaeth i'r disgyblion.

Mae gan y pennaeth adnabyddiaeth ddefnyddiol o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn annog staff i fod yn fyfyriol yn eu trefniadau monitro er mwyn gwerthuso blaenoriaethau'r  cynllun gwella ysgol. Caiff y wybodaeth hon, er enghraifft sy'n deillio o lyfrau monitro unigol staff, ei bwydo i brosesau gwelliant yr ysgol. Mae arweinwyr yn casglu barn holl aelodau cymuned yr ysgol fel rhan o'r prosesau gwella yn briodol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â staff ysgolion lleol er mwyn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, y cwricwlwm newydd a deddfwriaeth ADY, er enghraifft. Yn deillio o'r cydweithio hwn, mae arweinwyr yn llunio blaenoriaethau cytûn er mwyn sicrhau gwelliant. Er enghraifft, yn dilyn prosesau monitro, gofynnwyd i bartneriaid y clwstwr werthuso a mireinio'r ddarpariaeth er mwyn darparu her briodol ar gyfer disgyblion sydd ag ADY. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gweithredu ar eu targedau gwella ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau. Fodd bynnag, nid yw'r blaenoriaethau gwella yn cysylltu'n ddigon agos â safonau a darpariaeth yr ysgol yn ddigon uniongyrchol bob tro.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cynhyrchiol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Maent yn cynnal cyfleoedd buddiol iddynt gymryd rhan mewn ystod dda o hyfforddiant sydd yn ymateb i'w gofynion unigol a blaenoriaethau'r ysgol yn gadarn. Er enghraifft, mae llawer o athrawon a chymorthyddion dysgu yn cael hyfforddiant dwys i gefnogi lles disgyblion sydd yn cael effaith ragorol ar agweddau'r  disgyblion at ddysgu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/03/2023